

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	5 Mawrth 2019
SWYDDOG ARWEINIOL:	Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
SWYDDOG CYSWLLT:	Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd trwyddedu@sirddinbych.gov.uk 01824 706433
TESTUN:	Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol 2019/20

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.2 Darparu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol arfaethedig ar gyfer 2019/20 i'r Aelodau.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2.1 Mae Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol arfaethedig ynghlwm, yn Atodiad 1, i'r Aelodau ei hystyried a'i chymeradwyo.

3. GWYBODAETH GEFNDIROL

- 3.1 Bydd yr Aelodau'n ymwybodol iddynt gymeradwyo Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol 12 mis o hyd yn un o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Trwyddedu ym mis Rhagfyr 2018.

- 3.2 Wrth ddrafftio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, mae Swyddogion wedi ystyried y polisiau sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Trwyddedu a dyddiadau adolygu'r polisiau hynny ynghyd ag unrhyw newid deddfwriaethol posibl a gynigir gan lywodraeth ganolog.

4.

ARGYMHELLION

- 4.1 Bod yr Aelodau yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol arfaethedig, fel y nodwyd yn yr Atodiad.